

GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A458 (NANT YR EHEDYDD, I'R DWYRAIN O FALLWYD, GWYNEDD) (GWAHARDD CERBYDAU DROS DRO) 2021

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A458, neu gerllaw iddi, yn Nant yr Ehedydd, i'r dwyrain o Fallwyd, Gwynedd.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd, ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys neu ar gyfer y gwaith, rhag mynd ar y darn o gefnffordd yr A458 sy'n ymestyn o'i chyffordd â mynedfa'r eiddo o'r enw Dugod Mawr hyd at ei chyffordd â'r ffordd sy'n arwain at yr eiddo o'r enw Braich Llwyd, i'r dwyrain o Fallwyd, Gwynedd. Dim ond pan nad yw'n bosibl sicrhau lled gweithio diogel ar y gefnffordd y bydd y ffordd ar gau a dangosir hynny drwy osod arwyddion traffig ymlaen llaw.

Pan fydd y ffordd ar gau, y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r dwyrain fydd mynd ar yr A470 tua'r de o Fallwyd i Gaersŵs, ar yr A489 tua'r dwyrain i'r Drenewydd, ar yr A483 tua'r gogledd i Gylchfan Sarn-y-bryn-caled, y Trallwng, ac ar yr A458 tua'r gorllewin: i'r gwrthwyneb ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r gorllewin.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 7 Mehefin 2021. Disgwylir y bydd y gwaharddiad dros dro yn weithredol, yn ôl yr angen, o 06:00 o'r gloch ar 7 Mehefin 2021 tan 12:00 o'r gloch ar 26 Mehefin 2021 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y cyfnod a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan [Llywodraeth Cymru](https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd) ar <https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd>.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.



J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

THE A458 TRUNK ROAD (NANT YR EHEDYDD, EAST OF MALLWYD, GWYNEDD) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES) ORDER 2021

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A458 trunk road at Nant yr Ehedydd, east of Mallwyd, Gwynedd.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles, other than those being used by the emergency services or for the works, from proceeding on the length of the A458 trunk road that extends from its junction with the entrance to the property known as Dugod Mawr to its junction with the road leading to the property known as Braich Llwyd, east of Mallwyd, Gwynedd. Road closures will only be in force when it is not possible to ensure safe working widths on the trunk road and they will be indicated by advance traffic signs.

During closures, the alternative route for eastbound traffic will be via the southbound A470 from Mallwyd to Caersŵs, eastbound A489 to Newtown, northbound A483 to Sarn-y-bryn-caled Roundabout, Welshpool and westbound A458: vice versa for westbound traffic.

The Order comes into force on 7 June 2021. The temporary prohibition is expected to operate, as required, from 06:00 hours on 7 June 2021 until 12:00 hours on 26 June 2021 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the period specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders>.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.



J SADDLER
Transport
Welsh Government